Rhif: WG51304

Llywodraeth Cymru

# Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Gwaith ieuenctid yng Nghymru: cyflawni dros bobl ifanc

Cynigion ar gyfer fframwaith statudol newydd ar gyfer gwaith ieuenctid

Mawrth 2025

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol

## Trosolwg

Yn yr adroddiad hwn, ceir crynodeb o'r farn a'r safbwyntiau a gyflwynwyd gan y rhai a ymatebodd i gynigion drafft yn ymwneud â fframwaith statudol newydd ar gyfer gwaith ieuenctid.

## Camau i'w cymryd

Dogfen er gwybodaeth yn unig yw hon.

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gofyn am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

## Manylion Cysylltu

I gael rhagor o wybodaeth:

Yr Is-adran Llwybrau Dysgu
Y Gyfarwyddiaeth Addysg Drydyddol
Llywodraeth Cymru

Y Gangen Ymgysylltu ag Ieuenctid
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost: YouthWork@llyw.cymru

@LlC_Addysg

Facebook/AddysgCymru

## Copïau ychwanegol

Cyhoeddir y crynodeb hwn o'r ymatebion a chopïau o'r holl ddogfennau ymgynghori ar ffurf electronig yn unig ac maent ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

Dolen ar gyfer y dogfennau ymgynghori: Gwaith ieuenctid yng Nghymru: cyflawni dros bobl ifanc (dogfen ymgynghori) [HTML] | LLYW.CYMRU

## Cyflwyniad

Mae deddfu i greu fframwaith newydd ar gyfer gwasanaethau ieuenctid yng Nghymru yn un o ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu, gan fynd i'r afael ag un o'r argymhellion a wnaed gan y Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro yn ei adroddiad terfynol, lle gofynnwyd i Lywodraeth Cymru gymryd camau i ymdrin â'r hyn yr ystyrir ei fod yn sail ddeddfwriaethol wan ar gyfer gwaith ieuenctid.

Rhwng 7 Hydref 2024 a 10 Ionawr 2025, cynhaliwyd ymgynghoriad ynglŷn â chynigion drafft ar gyfer fframwaith statudol sy'n pennu fframwaith cynllunio, cyflawni ac adrodd newydd mewn perthynas â gwaith ieuenctid. Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg yn ddiolchgar i'r rhai a neilltuodd amser i ymateb i'r ymgynghoriad.

Derbyniwyd amrywiaeth o safbwyntiau gan 110 o ymatebwyr. Cafwyd cynrychiolaeth dda o bob rhan o'r sector, ynghyd â dosbarthiad daearyddol gweddol dda. Yn Atodiad A, ceir rhestr o'r sefydliadau a ymatebodd i'r ymgynghoriad ac sy'n fodlon i'w manylion gael eu rhannu.

Ochr yn ochr â'r broses ymgynghori ffurfiol, datblygwyd canllaw ymgysylltu i'w ddefnyddio gan y sector gwaith ieuenctid er mwyn ymgysylltu â phobl ifanc ynglŷn â'r fframwaith statudol newydd arfaethedig. Yn y canllaw, nodwyd pwyntiau trafod a oedd yn seiliedig ar nodweddion allweddol y cynigion hyn. Y bwriad oedd gwneud yn fawr o arbenigedd gweithwyr ieuenctid a'u cydberthnasau presennol gyda phobl ifanc er mwyn tanio trafodaeth ynglŷn â'r pwnc hwn a helpu pobl ifanc i gyflwyno'u hymatebion eu hunain i'r cynigion hyn. Derbyniwyd cyfanswm o 14 o ymatebion, naill ai gan fforymau ieuenctid presennol neu fel rhan o ymateb sefydliadol ehangach.

Hefyd, comisiynwyd Lab Cyd-gynhyrchu Cymru i ymgysylltu ymhellach â phobl ifanc, gan ganolbwyntio ar bobl ifanc nad ydynt mewn cysylltiad â sefydliadau gwaith ieuenctid ar hyn o bryd. O gofio dyfnder y cyd-destun a'r wybodaeth gefndir a oedd yn angenrheidiol er mwyn i'r cyfranogwyr allu gwneud cyfraniadau cytbwys, ar y dechrau canolbwyntiodd Lab Cyd-gynhyrchu Cymru ar drefnu grwpiau trafod i archwilio gwahanol faterion. Ategwyd hyn gan ymatebion i holiadur er mwyn casglu ystod ehangach o ymatebion. Cofnododd Lab Cyd-gynhyrchu Cymru safbwyntiau 49 o bobl ifanc (22 trwy gyfrwng grwpiau trafod ac 19 trwy gyfrwng yr holiadur).

## Crynodeb o'r ymatebion

### C1. Ydych chi'n teimlo bod y diffiniad arfaethedig o waith ieuenctid yn glir ac yn helpu i wahaniaethu rhwng gwaith ieuenctid a gwasanaethau eraill sy'n cefnogi pobl ifanc?

| Ydw | Nac ydw | Ddim yn siŵr | Cyfanswm yr ymatebion i'r cwestiwn hwn |
|---|---|---|---|
| 31% | 48% | 20% | 93 |

Mae nifer o’r ymatebwyr o’r farn y bydd angen mireinio’r diffiniad arfaethedig o waith ieuenctid.

Dywedodd nifer bod angen diffinio’r ‘dull addysgol neilltuol’ yn fwy manwl gywir trwy gyfeirio at ddysgu heb fod yn ffurfiol/dysgu anffurfiol. Roedd nifer o’r ymatebwyr o’r farn bod yr elfennau hyn yn rhyw fath o ‘nod amgen’ ar gyfer dull gwaith ieuenctid, sy’n wahanol i ddysgu mewn lleoliadau addysg ffurfiol. Roedd cyfran sylweddol o’r ymatebwyr yn awyddus i’r diffiniad roi mwy o bwyslais ar ddiben allweddol gwaith ieuenctid, a nodir yn y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) y cytunodd y sector arnynt yn 2008. Yn benodol ystyrir bod y cydweddiad agosach hwn â’r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol yn angenrheidiol er mwyn sicrhau bod y diffiniad yn cyfeirio at y dull cyfannol o ddatblygu pobl ifanc, a hefyd at bwysigrwydd lleisiau pobl ifanc – sef dwy elfen sy’n rhan annatod o waith ieuenctid.

Mae cyfran sylweddol o’r ymatebwyr o’r farn y byddai’r diffiniad yn ddefnyddiol o ran gwahaniaethu rhwng gwaith ieuenctid a gwasanaethau eraill i bobl ifanc, a hefyd o ran cadarnhau bod gwaith ieuenctid yn ddull proffesiynol gwahanol oddi mewn i wasanaethau cymorth ieuenctid ehangach pe bai aliniad agosach i’r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol.

Fodd bynnag, ni cheir consensws ynghylch a ddylai’r diffiniad gynnwys cyfeiriad at gymhwyster. Mae rhai o’r ymatebwyr o’r farn bod cyfeiriad o’r fath yn flaenoriaeth a’i fod yn hanfodol er mwyn sicrhau cydraddoldeb â phroffesiynau eraill. Ond hyd yn oed ymhlith y rhai sy’n ystyried ei fod yn flaenoriaeth, ceir pryder ynglŷn â’r effaith ar staff sydd heb gymhwyso, yn ogystal â gwirfoddolwyr.

Mae rhai ymatebwyr o’r sector yn gofyn am ddiwygio’r diffiniad er mwyn cyfeirio at waith ieuenctid fel gwasanaeth ‘a gaiff ei arwain gan’ staff cymwysedig, gan gynnig gwell darlun o sector sy’n dibynnu ar gyfraniad gwirfoddolwyr i gyflawni.

## C2. A oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol i'r dull gweithredu hwn?

| Oes | Nac oes | Ddim yn siŵr | Cyfanswm yr ymatebion i’r cwestiwn hwn |
|---:|---:|---:|---:|
| 65% | 8% | 27% | 88 |

Soniodd nifer o’r ymatebwyr am ganlyniadau anfwriadol posibl yn sgil cynnwys cyfeiriad at gymhwyster yn y diffiniad arfaethedig o waith ieuenctid. Er bod y mwyafrif o’r ymatebwyr o’r farn y bydd yr effaith yn cael ei theimlo’n bennaf yn y sector gwirfoddol, soniodd nifer o awdurdodau lleol am yr effaith ar eu gweithlu nhw a’u gallu i gynnal gwasanaethau yng nghyd-destun yr anawsterau presennol o ran recriwtio a chadw staff.

Ceir barn gyffredin ymhlith yr ymatebwyr y gallai ymlynu’n llym wrth statws cymwysedig arwain at beidio â gwerthfawrogi digon ar gyfraniad darpariaethau yn y gymuned, o dderbyn y bydd llai o unigolion sy’n cynnig darpariaethau mewn

lleoliadau o’r fath yn meddu ar gymhwyster cydnabyddedig yn ymwneud â gwaith ieuenctid neu gymorth ieuenctid. Mynegodd nifer o’r ymatebwyr bryder y gallai hyn ddadleoli gweithwyr cymunedol profiadol nad ydynt yn dymuno, neu na fyddent yn gallu, ennill cymhwyster cydnabyddedig yn ymwneud â gwaith ieuenctid neu gymorth ieuenctid – ac y gallai hyn arwain at golli arbenigedd gwerthfawr yn y sector.

Yn ei ymateb, mae Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol (CWVYS) yn nodi’r straen a roddir ar sefydliadau nad oes ganddynt ddigon o adnoddau i hyfforddi eu staff hyd at y safon angenrheidiol, pe bai’r diffiniad arfaethedig yn cael ei gyflwyno. Nodwyd hefyd y byddai tasg o’r fath yn arbennig o anodd i sefydliadau llawr gwlad, llai o ran maint.

Hefyd, mae rhai o’r ymatebwyr o’r farn nad yw’r diffiniad arfaethedig yn cydweddu â’r dull ‘tyfu eich gweithlu eich hun’ – sef dull a gaiff ei hyrwyddo gan y sector gwaith ieuenctid fel dull arbennig o lwyddiannus pan ddaw hi’n fater o ddatblygu’r gweithlu. Yn ei dro, ystyrir bod hyn yn rhoi amrywiaeth y gweithlu presennol yn y fantol – hynny yw, gweithlu sy’n cynnig sgiliau, profiadau a dulliau ehangach, gan fynd ati’n aml i ddefnyddio profiadau bywyd.

## C3. Ydych chi'n teimlo y bydd y gofyniad am gynllun strategol gwaith ieuenctid yn helpu i gryfhau'r ffordd y caiff gwaith ieuenctid ei gynllunio a'i gyflenwi?

| Ydw | Nac ydw | Ddim yn siŵr | Cyfanswm yr ymatebion i’r cwestiwn hwn |
|---:|---:|---:|---:|
| 73% | 5% | 22% | 93 |

Mae’r mwyafrif o’r ymatebwyr yn cefnogi’r syniad y dylid cyflwyno cynlluniau strategol gwaith ieuenctid fel ffordd o gryfhau’r modd y cynllunnir ac y darperir gwaith ieuenctid, a hefyd fel ffordd o dynnu sylw at ei werth strategol ar draws nifer o feysydd polisi. Yn ôl rhai o’r ymatebwyr, mae gan y cynlluniau hyn y potensial i ddylanwadu ar benderfyniadau’n ymwneud â setliadau ariannol mewn awdurdodau lleol. Hefyd, mae nifer o’r ymatebwyr o’r farn y byddai cyflwyno cynlluniau o’r fath yn ddefnyddiol o ran pennu a lleihau mynediad anghyfartal at wasanaethau a bylchau mewn darpariaethau.

Ym marn nifer o’r ymatebwyr, mae’r cynnig i gydweddu’r cynlluniau â’r saith nod llesiant ar gyfer Cymru yn ddefnyddiol o ran helpu i ddangos y modd y mae gwaith ieuenctid yn cyfrannu at flaenoriaethau cenedlaethol ehangach. Mae rhai o’r ymatebwyr yn credu y gallai’r cynlluniau arwain at ffyrdd gwell o ddyrannu adnoddau, ynghyd â chydweithredu rhwyddach rhwng gwahanol sefydliadau, gan helpu i sicrhau bod gwasanaethau’n cyd-fynd ag anghenion pobl ifanc.

Fodd bynnag, hyd yn oed ymhlith y rhai sy’n cefnogi’r cynigion, dengys y dadansoddiad fod angen ystyried nifer o faterion fel a ganlyn.

Gofynnwyd a fyddai modd sicrhau bod y cynlluniau'n cael eu hymwreiddio'n ddwfn mewn tystiolaeth – gan gyfeirio'n glir at ddefnyddio data lleol, yn ogystal â thystiolaeth ansoddol gan bobl ifanc a phartneriaid allweddol ynglŷn â'r hyn sy'n angenrheidiol i ddiwallu anghenion pobl ifanc. Ym marn nifer o'r ymatebwyr, mae hi'n hanfodol mynd ati i ddatblygu trefniadau effeithiol ar gyfer casglu data a thystiolaeth.

Mae ymatebion eraill yn nodi bod y cynlluniau'n cynnig cyfle clir i ddadansoddi hyd a lled y ddarpariaeth gwaith ieuenctid cyfrwng Cymraeg, ynghyd â chyfle i gynllunio ar gyfer ymestyn y ddarpariaeth honno yn unol ag anghenion ac angenrheidiau pobl ifanc.

Mae nifer o'r ymatebwyr yn nodi pa mor bwysig yw cael dulliau clir ar gyfer cynnwys pobl ifanc yn y broses o ddatblygu cynlluniau strategol gwaith ieuenctid. Gofynnodd un ymatebydd a fyddai modd i'r cynlluniau ddefnyddio profiad gweithwyr ieuenctid mewn datblygu gwasanaethau sy'n mynd y tu hwnt i 'anghenion ac angenrheidiau' pobl ifanc er mwyn canolbwyntio ar ehangu gorwelion ac uchelgeisiau pobl ifanc.

Pryder cyffredin a welir ymhlith yr ymatebion oedd y byddai llwyddiant y cynlluniau strategol yn dibynnu ar yr adnoddau a'r gallu sydd ar gael i'w gweithredu. Mae nifer o'r ymatebwyr wedi tynnu sylw at densiwn posibl rhwng datblygu cynlluniau pum mlynedd a chylchoedd cyllido byrrach. Yn ôl un ymatebydd, gallai ansicrwydd o ran cyllid arwain at ddull cynllunio gofalus neu geidwadol, a nodwyd y gallai awdurdodau lleol fod yn gyndyn o ymrwymo'n llwyr i amcanion hirdymor pe na bai cyllid wedi cael ei warantu. Gofynnodd un ymatebydd a fyddai modd cael cynllun tair blynedd i gyd-fynd â chynlluniau corfforaethol awdurdodau lleol a chylch cyllido cyfredol y Grant Cymorth Ieuenctid.

Mae nifer o'r ymatebwyr yn nodi bod angen i'r cynlluniau fynd i'r afael â heriau'n ymwneud â'r gweithlu, a gofynnwyd a fyddai modd sicrhau bod y cynlluniau'n cyflwyno data defnyddiol fel y gellir mynd ati'n effeithiol i gynllunio gweithgareddau hyfforddi a chynllunio gogyfer datblygu'r gweithlu.

Gwelir bod nifer o'r ymatebwyr yn gofyn a oes modd cael templedi a chanllawiau ategol gan Lywodraeth Cymru er mwyn gwella ansawdd y cynlluniau a sicrhau dull cyson. Gofynnodd nifer o'r ymatebwyr a fyddai modd dyrannu adnoddau digonol i ategu'r gwaith o ddatblygu cynlluniau o'r radd flaenaf. Gan wneud defnydd o brofiad yn ymwneud â'r Asesiadau o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae, pwysleisiodd un ymatebydd pa mor werthfawr yw cael templed er mwyn 'gallu dwyn cymhariaeth ar draws blynyddoedd… gan ddarparu dull cyson ar gyfer gwaith trawsadrannol a chynllunio camau gweithredu'.

Mae rhai ymatebwyr yn bryderus ynghylch y ffaith na fyddai'r cynlluniau pum mlynedd o reidrwydd yn galluogi gwasanaethau i ymateb i anghenion a ddaw i'r amlwg. Ar y llaw arall, mae rhai ymatebwyr o'r farn y gellir dehongli'r fframwaith mewn gwahanol ffyrdd, ac y gallai hynny arwain at anghysondeb ledled Cymru.

Nododd nifer fawr o'r ymatebwyr bod angen monitro a gwerthuso'r cynlluniau'n drylwyr. Mae rhai ohonynt yn gweld rôl glir i Estyn yn hyn o beth, tra mae eraill o'r farn y gallai'r gwaith hwn fod yn rhan o gorff cenedlaethol posibl ar gyfer rôl gwaith ieuenctid, pe bai sefydliad o'r fath yn cael ei sefydlu. Gyda goruchwyliaeth briodol, mae rhai o'r ymatebwyr o'r farn y byddai'r cynlluniau strategol yn helpu i fesur effeithiolrwydd strwythurau a gwasanaethau, gan helpu i ddangos effaith y gwaith.

Gwelir bod nifer o sefydliadau gwirfoddol sy'n cwmpasu amryfal awdurdodau lleol wedi nodi risg benodol – sef yr angen i ddangos y modd mae eu gwasanaethau'n bodloni nifer o gynlluniau strategol gwahanol a chanddynt flaenoriaethau gwahanol, a'r baich gweinyddol sy'n deillio o hyn. Hefyd, ceir pryder y bydd y cynlluniau'n rhoi gofynion ychwanegol ar awdurdodau lleol, gan dynnu sylw oddi ar ddarparu gwasanaethau.

Tanlinellodd nifer o'r ymatebwyr, yn enwedig ymatebwyr o'r sector gwirfoddol, pa mor bwysig yw sicrhau dull cynhwysol a chydweithredol wrth ddatblygu'r cynlluniau, gan sicrhau y bydd sefydliadau'r sector gwirfoddol yn cael eu cynnwys ac y byddant hefyd yn cael awdurdod i wneud penderfyniadau.

Ym marn nifer fach o'r ymatebwyr, ni fydd y cynlluniau strategol yn esgor ar yr effaith a fwriadwyd. Mae rhai sefydliadau gwirfoddol yn pryderu y gallai'r pwyslais a roddir ar rôl awdurdodau lleol yn y fframwaith drafft 'atgyfnerthu'r dull darniog ac anhrefnus cyfredol sy'n caniatáu i bob un o'r 22 awdurdod lleol weithredu mewn ffordd wahanol…'. Yn ôl un ymatebydd, dim ond trwy gyfrwng gwahoddiad gan yr awdurdod lleol y caiff sefydliadau gwirfoddol eu cynnwys yn y gwaith o lunio cynlluniau strategol, a nodir y gallai hyn arwain at anghydbwysedd pŵer.

Mae nifer o'r ymatebwyr yn gofyn am ragor o fanylion ynglŷn â'r modd mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu adolygu cynnydd y cynlluniau strategol a'r modd y bydd yn delio â thanberfformio/diffyg cydymffurfio. Ym marn nifer o'r ymatebwyr, heb gael trefniadau craffu digonol a safonau uchel, bach iawn fydd effaith y cynlluniau arfaethedig ar gryfhau'r modd y cynllunnir ac y datblygir gwaith ieuenctid.

## C4. Ydych chi'n teimlo y bydd y cynllun strategol gwaith ieuenctid yn darparu strwythur atebolrwydd effeithiol ar gyfer gwaith ieuenctid?

| Ydw | Nac ydw | Ddim yn siŵr | Cyfanswm yr ymatebion i'r cwestiwn hwn |
|---:|---:|---:|---:|
| 44% | 18% | 38% | 90 |

Mae cyfran sylweddol o'r ymatebwyr o'r farn y gallai'r cynlluniau strategol gwaith ieuenctid helpu i ddyrchafu statws gwaith ieuenctid fel gwasanaeth strategol, ynghyd â chynnig dull o sicrhau y bydd pob awdurdod lleol yn atebol am ddarparu gwaith ieuenctid. Fodd bynnag, mae rhai o'r farn y bydd effeithiolrwydd y cynlluniau'n

dibynnu ar graffu effeithiol gan Lywodraeth Cymru a hefyd ar y sancsiynau a roddir ar waith pan fethir â pherfformio neu gydymffurfio’n ddigonol ag amcanion y cynllun.

Mae nifer o’r ymatebwyr o’r farn bod cynnwys pwyllgor trosolwg a chraffu’r awdurdod lleol yn y dasg o adolygu’r cynlluniau strategol yn gam cadarnhaol, gan ymwreiddio atebolrwydd oddi mewn i strwythurau llywodraethu lleol sy’n bodoli eisoes. Hefyd, dywedodd nifer o’r ymatebwyr fod adroddiadau cynnydd blynyddol yn bwysig, gan gynnig ffordd o olrhain y modd y rhoddir amcanion y cynlluniau strategol ar waith. Tynnodd nifer o’r ymatebwyr sylw at y cynnig i gyhoeddi cynlluniau fel dull defnyddiol o hyrwyddo tryloywder wrth wneud penderfyniadau.

Gofynnodd cyfran helaeth o’r ymatebwyr a fyddai modd ystyried ymhellach y ffordd orau o sicrhau y bydd yr holl bartneriaid yn cael eu dwyn yn atebol am eu rôl o ran cyflawni’r cynllun strategol. Gofynnodd nifer o’r ymatebwyr am gael gwell eglurhad o rolau a disgwyliadau penodol gwahanol randdeiliaid. Un awgrym oedd y dylid cynnwys sefydliadau’r sector gwirfoddol lleol yn y gwaith o ddatblygu trefniadau atebolrwydd a llywodraethu lleol.

Mae’r mwyafrif o’r ymatebion yn gofyn am gael rhagor o ganllawiau, templedi a chyngor technegol er mwyn gwella ansawdd y cynlluniau strategol a sicrhau ymarfer mwy cyson. Gofynnodd nifer o randdeiliaid, yn cynnwys Bwrdd Gweithredu’r Strategaeth Gwaith Ieuenctid, a fyddai modd cynnwys Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb mewn cynlluniau strategol ac adroddiadau blynyddol.

Mae cyfran sylweddol o’r ymatebwyr yn gweld rôl ar gyfer corff gwaith ieuenctid cenedlaethol, pe bai sefydliad o’r fath yn cael ei sefydlu – hynny yw, rôl o ran cynorthwyo i ddatblygu cynlluniau strategol, hyrwyddo cydweithredu, a chydweddu cynlluniau lleol â blaenoriaethau cenedlaethol. Nododd nifer fechan o’r ymatebwyr y gallai Chwarae Cymru gynorthwyo awdurdodau lleol i fodloni eu dyletswydd o ran digonolrwydd cyfleoedd chwarae, ac maent o’r farn y gallai hyn fod yn fodel defnyddiol ar gyfer gwaith ieuenctid.

## C5. Bwriad y cynigion yw sicrhau bod awdurdodau lleol yn cynllunio ac yn cyflenwi darpariaeth gwaith ieuenctid mewn ffordd gydweithredol yn unol â'r angen lleol. Ydych chi o'r farn bod angen nodi gofynion manylach?

| Ydw | Nac ydw | Ddim yn siŵr | Cyfanswm yr ymatebion i’r cwestiwn hwn |
|---:|---:|---:|---:|
| 61% | 19% | 20% | 91 |

Mae mwy na hanner yr ymatebion a gafwyd i’r cwestiwn hwn o’r farn bod angen i Lywodraeth Cymru gynnwys rhagor o ragnodiadau mewn perthynas â strwythurau partneriaeth. Roedd cyfran helaeth o ymatebwyr o’r sector gwirfoddol o’r farn bod angen hyn er mwyn sicrhau y byddant hwy a’u cymheiriaid ledled y sector gwirfoddol yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau strategol. Yn fwy cyffredinol, gofynnwyd am ragor o ragnodi er mwyn gwella cysondeb a gwella ansawdd y cydweithredu ar draws ardal pob awdurdod lleol.

Mae nifer o’r ymatebwyr o’r farn bod angen rhagor o ragnodiadau er mwyn ategu a gwella gwaith rhanbarthol, a thynnir sylw at anawsterau presennol o ran sicrhau ymrwymiad cyson ar draws strwythurau rhanbarthol presennol. Tynnodd rhai o’r ymatebwyr sylw at rôl bosibl ar gyfer corff gwaith ieuenctid cenedlaethol, pe bai sefydliad o’r fath yn cael ei sefydlu, er mwyn hwyluso rhwydweithio a meithrin partneriaethau ar draws ardaloedd awdurdodau lleol ac ar lefel ranbarthol.

Gofynnodd nifer o’r ymatebwyr a fyddai modd cynnwys rhagor o ragnodiadau yn y fframwaith newydd mewn perthynas â rôl y swyddog arweiniol, a gofynnwyd am ragor o fanylion ynghylch lefel deiliad y swydd. Tynnodd rhai ymatebwyr sylw at werth y Rhaglen Arweinyddiaeth a Rheolaeth ar gyfer Gwaith Ieuenctid a gyflwynir gan Safonau Addysg Hyfforddiant Cymru o ran hwyluso arweinyddiaeth effeithiol a medrus yn y sector gwaith ieuenctid fel ffordd o ddatblygu ymgeiswyr addas ar gyfer y rôl hollbwysig hon.

Fodd bynnag, rhybuddiodd rhai o’r ymatebwyr na ddylid rhoi dull rhy ragnodol ar waith, gan y gallai hynny danseilio’r hyblygrwydd sy’n angenrheidiol i ymateb i anghenion y gymuned. Yn hytrach, gofynnwyd am gael canllawiau neu safonau sylfaenol. Nododd rhai o’r ymatebwyr y rhwymedigaethau presennol a gynhwysir yn Adran 125 o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000, sy’n dal i fod mewn grym ac sydd eisoes yn gymharol ragnodol. Mae un ymatebwr yn sôn am rôl prosesau sicrhau ansawdd fel dewis amgen yn lle cynnwys ychwaneg o ragnodiadau ar gyfer strwythurau partneriaeth, ac mae rhai’n awgrymu bod yna gyfleoedd i Estyn a’r Marc Ansawdd ar gyfer Gwaith Ieuenctid yng Nghymru ystyried ansawdd gwaith partneriaeth a chyfeirio at arferion gorau.

Mae nifer o sefydliadau gwirfoddol a chanddynt ôl troed cenedlaethol yn tynnu sylw at anawsterau posibl o ran eu gallu i fwydo i strwythurau partneriaeth ar draws pob un o’r 22 awdurdod lleol.

Mae’r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yn nodi pa mor bwysig yw cynllunio strategol integredig ar gyfer gwaith ieuenctid a chymorth perthnasol arall er mwyn sicrhau y rhoddir dull cyfannol ar waith ar gyfer diwallu anghenion pobl ifanc, fel y gellir osgoi dyblygu yn ogystal ag integreiddio’n well â gwasanaethau presennol. Adleisiwyd hyn gan nifer o ymatebwyr eraill, lle gofynnwyd am well eglurder ynglŷn â diben y strwythurau partneriaeth arfaethedig a’u cydberthynas â strwythurau lleol a rhanbarthol sy’n bodoli eisoes.

## C6. Ydy'r trefniadau atebolrwydd a gynigir yn y fframwaith statudol yn ddigon cadarn a chlir?

| Ydyn | Nac ydyn | Ddim yn siŵr | Cyfanswm yr ymatebion i’r cwestiwn hwn |
|---:|---:|---:|---:|
| 27% | 33% | 40% | 92 |

Mae nifer o’r ymatebwyr o’r farn bod y cyfarwyddyd y dylai awdurdodau lleol ddarparu gwasanaethau gwaith ieuenctid neilltuol oddi mewn i wasanaethau cymorth

ieuenctid ehangach, ynddo'i hun, yn gam cadarnhaol o ran gwella atebolrwydd. Fodd bynnag, mae rhai ymatebwyr o'r farn y bydd llwyddiant hyn oll yn dibynnu ar ddiffinio gwaith ieuenctid yn briodol er mwyn sicrhau y bydd y cyllid a ddyrennir i waith ieuenctid yn cael ei wario'n benodol ar ddarpariaeth gwaith ieuenctid.

Ym marn nifer o'r ymatebwyr, mae cynnwys pobl ifanc yn un o gryfderau allweddol y trefniadau atebolrwydd arfaethedig, gan rymuso pobl ifanc i ddwyn partneriaid i gyfrif a sicrhau bod darpariaeth gwaith ieuenctid yn parhau i fod yn berthnasol i'w hanghenion, yn unol ag egwyddorion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Fodd bynnag, roedd nifer o'r ymatebwyr yn gofyn am gael cydnabod yr angen i fuddsoddi mewn adnoddau a hyfforddiant er mwyn galluogi pobl ifanc i gymryd rhan yn effeithiol.

Awgrymodd nifer o'r ymatebwyr y gellid defnyddio fframwaith arolygu gwaith ieuenctid Estyn wrth ystyried a yw awdurdodau lleol yn cydymffurfio â'r fframwaith statudol arfaethedig. Mae nifer sylweddol o'r ymatebwyr yn gweld rôl ar gyfer corff gwaith ieuenctid cenedlaethol mewn unrhyw fframwaith atebolrwydd, pe bai corff o'r fath yn cael ei sefydlu. Roedd un ymatebydd yn cynnig y dylid cynnal gwaith craffu rheolaidd a chyhoeddi data ariannol am wariant awdurdodau lleol ar waith ieuenctid fel agwedd ychwanegol effeithiol ar y trefniadau atebolrwydd.

Mae rhai ymatebwyr yn rhybuddio na ddylid ychwanegu rhagor o lefelau craffu y tu hwnt i'r hyn sydd eisoes ar waith, oherwydd gallai hynny leihau'r adnoddau sydd ar gael ar gyfer cyflawni gwasanaethau'n effeithiol.

## C7. Ydy'r hawlogaeth arfaethedig i waith ieuenctid yn crynhoi'n glir sut rydym i gyd yn dymuno gweld gwaith ieuenctid yn cael ei gynllunio a'i gyflenwi?

| Ydy | Nac ydy | Ddim yn siŵr | Cyfanswm yr ymatebion i'r cwestiwn hwn |
|---:|---:|---:|---:|
| 48% | 26% | 26% | 92 |

Ym marn nifer o'r ymatebwyr, byddai cyflwyno hawlogaeth gwaith ieuenctid yn fuddiol, gan ddangos pa mor werthfawr yw sefydlu safonau cenedlaethol ar gyfer cynllunio a darparu gwaith ieuenctid. Mae nifer o'r ymatebion cadarnhaol hyn yn cynnwys argymhellion i gryfhau mwy fyth ar yr hawlogaeth trwy gynnwys 'dangosyddion' ychwanegol ar gyfer darpariaeth o ansawdd. Mae'r rhain yn cynnwys, er enghraifft: yr angen i gyfeirio'n benodol at ddarpariaeth i bobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol; mwy o bwyslais ar gyfranogiad pobl ifanc mewn penderfyniadau a chydgynhyrchu; a chydnabod gwaith ieuenctid fel llwyfan a all rymuso pobl ifanc, yn hytrach na'i ystyried yn unig fel gwasanaeth y dylid ei gyflawni. Hefyd, mae nifer o'r ymatebwyr yn gofyn a oes modd i'r hawlogaeth arfaethedig ganolbwyntio mwy ar ddatblygiad proffesiynol y gweithlu.

I'r gwrthwyneb, roedd nifer o'r ymatebwyr o'r farn bod geiriad presennol yr hawlogaeth gwaith ieuenctid yn achosi problemau gan ei fod yn anwybyddu'r cymhlethdodau o ran y modd y caiff gwaith ieuenctid ei ddarparu ar lawr gwlad.

Gofynnir a oes modd i'r hawlogaeth gwaith ieuenctid gyfeirio at yr angen i gydweithredu a'r angen i roi dull partneriaeth ar waith. Heb hyn, roedd nifer o'r ymatebwyr o'r farn na fyddai rôl y sector gwirfoddol o ran darparu arlwy gwaith ieuenctid cyfoethog ac amrywiol o reidrwydd yn cael ei chydnabod yn ddigonol.

Mae nifer helaeth o'r ymatebwyr o'r farn y byddai'r canllawiau drafft yn elwa ar gynnwys rhagor o fanylion ynglŷn â beth yn union yw arlwy gwaith ieuenctid 'da' i bobl ifanc, gan gyfeirio at gyfleoedd 'addysgol, mynegiannol, cyfranogol, cynhwysol a grymusol' – hynny yw, pum piler gwaith ieuenctid yng Nghymru, fel y nodir yn Gwaith Ieuenctid yng Nghymru: egwyddorion a dibenion.

Hefyd, crybwyllodd cyfran sylweddol o'r ymatebwyr bryder ynglŷn â'r ffaith y gellir dehongli'r hawlogaeth gwaith ieuenctid mewn gwahanol ffyrdd. Nodir y gallai hyn arwain at anghysonderau daearyddol a fydd yn mynd y tu hwnt i hyblygrwydd lleol ac a allai arwain at 'loteri cod post' o ran mynediad at gymorth i bobl ifanc. Gofynnodd cyfran sylweddol o'r ymatebwyr am gael safonau sylfaenol i liniaru'r pryderon hyn.

Ar sail rhai o'r ymatebion, mae'n amlwg hefyd bod angen cadarnhau ystyr y term 'hawlogaeth' yn y cyd-destun hwn. Mae rhai o'r ymatebwyr wedi ei ddehongli fel hawlogaeth i waith ieuenctid ynddo'i hun yn hytrach na dull cytunedig o gynllunio a darparu gwaith ieuenctid.

Mae nifer o ymatebwyr o bob rhan o'r sector wedi tynnu sylw at anhawster posibl o ran parhau i gydweddu â'r dull a nodir yn yr hawlogaeth gwaith ieuenctid arfaethedig pan fo sefydliadau'n ddibynnol ar gyllid darniog a ddaw o amrywiaeth eang o ffynonellau.

## C8. Mae'r fframwaith statudol yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol sicrhau bod pobl ifanc yn gallu cymryd rhan yn y gwaith o gynllunio a chyflenwi gwaith ieuenctid. Byddai'r union ddull o gyflawni hyn yn cael ei benderfynu ar sail yr angen a'r strwythurau lleol. Ydych chi o'r farn bod angen nodi gofynion manylach?

| Ydw | Nac ydw | Ddim yn siŵr | Cyfanswm yr ymatebion i'r cwestiwn hwn |
|---|---|---|---|
| 56% | 24% | 20% | 90 |

Nododd mwy na hanner yr ymatebion i'r cwestiwn hwn fod angen i'r fframwaith statudol fod yn fwy rhagnodol yn y maes hwn. Un pryder allweddol oedd yr angen i sicrhau dulliau cyson ledled Cymru, oherwydd mae'n bosibl bod yr ymarfer presennol yn amrywio o ran ansawdd ac effeithiolrwydd. Roedd nifer o'r ymatebwyr o'r farn y dylai'r fframwaith bennu disgwyliadau sylfaenol o ran cyfranogiad pobl ifanc. Hefyd, awgrymodd nifer o'r ymatebwyr fod yna fwy o gyfle i rannu arferion gorau ledled y sector er mwyn gwella ansawdd y cyfranogi a'r cydgynhyrchu gyda phobl ifanc ar sail strategol a gweithredol.

Roedd cyfran sylweddol o'r ymatebwyr yn bryderus nad oedd y dulliau cyfranogi presennol yn cynrychioli poblogaeth pobl ifanc Cymru yn ddigon da, a gofynnwyd am

gael canllawiau pellach er mwyn sicrhau y byddai profiadau bywyd amrywiol pobl ifanc yn cael eu cyfleu.

Gofynnodd rhai o'r ymatebwyr am gynyddu rhagnodiadau er mwyn osgoi ymgynghoriad 'tocenistaidd' gyda phobl ifanc, a nodwyd pa mor bwysig yw sicrhau na chaiff cyfraniadau pobl ifanc eu hanwybyddu na'u camgyfleu. Gofynnodd un ymatebydd am ddull annibynnol o graffu ar strwythurau cyfranogi.

Ym marn rhai o'r ymatebwyr, nid oedd angen rhagor o ragnodiadau, oherwydd ceir strwythurau cadarn ac effeithiol eisoes ar gyfer ymgysylltu â phobl ifanc wrth gynllunio a darparu gwaith ieuenctid. Hefyd, nodwyd y gallai rhagor o ragnodiadau effeithio ar yr hyblygrwydd sy'n angenrheidiol i ymateb i anghenion pobl ifanc, gan alluogi awdurdodau lleol a'u partneriaid i addasu eu dulliau yn ôl anghenion cymunedau penodol.

Pwysleisiodd rhai ymatebwyr fod yna gyfle i gael dull cytbwys lle ceir rhywfaint o ragnodi a rhywfaint o hyblygrwydd – hynny yw, gosod safonau sylfaenol a chaniatáu hyblygrwydd i addasu i amodau ac anghenion lleol.

Gofynnodd nifer o'r ymatebwyr am gael cydnabod yr angen i fuddsoddi er mwyn ategu dulliau ymgynghori ystyrlon o'r radd flaenaf gyda phobl ifanc.

Nododd Addysg Oedolion Cymru bod y cyfeiriad at y Safonau Cyfranogi Cenedlaethol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc yn ffordd ddefnyddiol bosibl o sicrhau dull cyfranogi cyson ledled Cymru, gyda'r cafeat bod angen adolygu'r safonau er mwyn sicrhau eu bod yn berthnasol o hyd.

## C9. Beth yn eich barn chi fyddai effeithiau tebygol y cynigion ar y Gymraeg?

## Mae diddordeb penodol gyda ni mewn unrhyw effeithiau posibl ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
## Ydych chi'n meddwl fod cyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol?
## Ydych chi'n meddwl fod cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

| Cyfanswm yr ymatebion i'r cwestiwn hwn |
| ---: |
| 69 |

Roedd nifer o'r ymatebwyr o'r farn y byddai'r fframwaith arfaethedig yn cyd-fynd â strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru ac y byddai'n ategu nodau'r strategaeth o ran creu mwy o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Tynnodd nifer o'r ymatebwyr sylw at werth gwaith ieuenctid cyfrwng Cymraeg o ran cynnig cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith y tu allan i'r ystafell ddosbarth, gan feithrin hyder dysgwyr i ddefnyddio'u sgiliau iaith mewn gwahanol gyd-destunau.

Soniodd nifer o'r ymatebwyr, yn cynnwys y rhai a oedd yn cyflwyno adborth gan bobl ifanc, am y rôl sydd gan wasanaethau gwaith ieuenctid Cymraeg o ran dathlu a hyrwyddo amrywiaeth, a chefnogi hunaniaeth ieithyddol a diwylliannol pobl ifanc.

Nodwyd bod problemau o ran cyllid a gallu yn rhwystr rhag cryfhau ac ymestyn darpariaethau gwaith ieuenctid Cymraeg, a soniodd yr ymatebwyr am ddiffyg gweithwyr ieuenctid Cymraeg. Gofynnwyd am fuddsoddi rhagor o arian i ddenu a chadw siaradwyr Cymraeg ac i ddatblygu sgiliau Cymraeg gweithwyr ieuenctid presennol er mwyn cynorthwyo i gefnogi ac ymestyn cymuned o ymarferwyr.

Roedd nifer o'r ymatebwyr yn ffafrio dull dwyieithog, gan annog cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn achlysurol o fewn y ddarpariaeth a'r profiad er mwyn helpu i feithrin hyder pobl ifanc i ddefnyddio'u sgiliau Cymraeg. Roedd rhai o'r ymatebwyr yn credu y byddai cyflwyno cynllun strategol yn arwain at ystyried proffil ieithyddol y boblogaeth leol yn well. Yn ôl rhai o'r ymatebwyr, dylid ystyried proffil ieithyddol ehangach cymunedau ochr yn ochr â'r ddarpariaeth ar gyfer siaradwyr Cymraeg, a dywedasant fod angen cynllunio'r ddarpariaeth yn unol ag anghenion lleol.

Fodd bynnag, nododd Comisiynydd y Gymraeg pa mor bwysig yw rhoi cyfle i waith ieuenctid ysgwyddo rôl o ran cefnogi a datblygu'r modd y defnyddir yr iaith gan siaradwyr Cymraeg newydd, yn hytrach na chanolbwyntio'n unig ar ddiwallu'r galw presennol.

Gofynnwyd am ganllawiau mwy ymarferol i awdurdodau lleol er mwyn sicrhau dull cyson o gynllunio a chyflawni darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Roedd rhai awdurdodau lleol o'r farn y byddai dull rhanbarthol yn fuddiol o ran cryfhau'r arlwy cyfrwng Cymraeg sydd ar gael i bobl ifanc.

## C10. Yn eich barn chi, a fyddai modd ffurfio neu addasu y cynigion dan sylw er mwyn sicrhau: eu bod yn cael effeithiau positif neu fwy positif ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â'i thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg; neu nad yw'n cael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â'i thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg?

| Cyfanswm yr ymatebion i'r cwestiwn hwn |
|---|
| 39 |

Roedd nifer o'r ymatebwyr o'r farn y byddai'r gofyniad i ddatblygu cynlluniau strategol a gaiff eu harwain gan anghenion ac sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn sicrhau bod proffil ieithyddol cymunedau yn ganolog i amcanion y cynlluniau. Fodd bynnag, gofynnwyd a fyddai modd rhoi canllawiau pellach i awdurdodau lleol i'w cynorthwyo yn y maes hwn.

Gofynnodd nifer o'r ymatebwyr a fyddai modd integreiddio a chydweddu'r cynlluniau strategol gwaith ieuenctid â'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg.

Awgrymodd nifer o'r ymatebwyr y gellid cryfhau'r cynigion trwy fynd i'r afael â gallu'r gweithlu trwy gyfrwng mentrau datblygiad proffesiynol neu gyllid dynodedig ar gyfer hyfforddi a recriwtio gweithwyr ieuenctid Cymraeg.

Ym marn rhai o'r ymatebwyr, y ffordd orau o fynd i'r afael â bylchau yn argaeledd y ddarpariaeth Gymraeg yw trwy gadw golwg ar bethau ar lefel genedlaethol. Gofynnodd un ymatebydd a fyddai modd ategu'r fframwaith gyda ffrwd gyllido ddynodedig i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau o ran mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.

## C11. Unrhyw faterion cysylltiedig nad yw'r cwestiynau uchod wedi mynd i'r afael â nhw.

| Cyfanswm yr ymatebion i'r cwestiwn hwn |
|---|
| 45 |

Gofynnodd nifer o'r ymatebwyr a fyddai modd i'r fframwaith statudol newydd roi mwy o bwyslais ar ddiogelu, er mwyn cael dull cyson ledled y sector gwaith ieuenctid, yn cynnwys protocolau diogelu cadarn ar gyfer rhyngweithio ar-lein.

Gofynnodd rhai o'r ymatebwyr am gael canllawiau cliriach ar brosesau casglu data, er mwyn helpu i'w safoni. Ym marn yr ymatebwyr, roedd hyn yn angenrheidiol er mwyn gallu asesu canlyniadau ac effeithiau'n effeithiol – rhywbeth a allai, yn ei dro, gynnig gwybodaeth werthfawr i lywio polisïau ac ymarfer gwaith ieuenctid yn y dyfodol. Hefyd, gofynnodd rhai ymatebwyr am gael mesurau cenedlaethol ar gyfer gwerthuso gwaith ieuenctid. Byddai mesurau o'r fath yn diffinio'n glir yr hyn sy'n deillio o ymyriadau gwaith ieuenctid er mwyn deall yn well yr effaith a gaiff gwaith ieuenctid cyfoethog ac amrywiol.

Defnyddiwyd yr adran hon gan rai o'r ymatebwyr i ailadrodd pa mor bwysig yw buddsoddi'n barhaus mewn hyfforddi a datblygu, er mwyn cynorthwyo'r gweithlu gwaith ieuenctid yn ei gyfanrwydd, gan sicrhau bod hyfforddiant yn hygyrch ac yn fforddiadwy er mwyn i wirfoddolwyr yn ogystal â staff cyflogedig fod yn gymwys i ddelio ag anghenion amrywiol pobl ifanc. Ystyrir bod cyllid hirdymor a chynaliadwy yn hollbwysig ar gyfer datblygu'r gweithlu a chynnal cyfranogiad ieuenctid o'r radd flaenaf.

Gofynnodd un ymatebydd a fyddai modd ystyried llwybrau amgen yn lle cymhwyster ar gyfer proffesiynau cysylltiedig fel athrawon.

Gofynnodd nifer o'r ymatebwyr a fyddai modd i'r fframwaith ganolbwyntio mwy ar gyfraniad gwirfoddolwyr a'r angen i ystyried y ffordd orau o gefnogi eu hymarfer, a thynnwyd sylw at bryder cynyddol ynglŷn â recriwtio a chadw gwirfoddolwyr.

Roedd Safonau Addysg Hyfforddiant Cymru yn awyddus i weld gwell cysondeb yn nheitlau'r rolau a nodwyd bod angen newid y teitl 'gweithiwr cymorth ieuenctid', o bosibl, er mwyn adlewyrchu ei swyddogaeth gwaith ieuenctid.

Gofynnodd nifer o'r ymatebwyr a fyddai modd i'r fframwaith arfaethedig roi mwy o bwyslais ar y cysylltiadau rhwng gwaith chwarae a gwaith ieuenctid mewn perthynas â ffyrdd o weithio, datblygu a darparu gwasanaethau a synergedd cymwysterau.

Gofynnodd un ymatebydd am well eglurder ynglŷn ag effaith y fframwaith newydd ar Gynllun Grant Strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer Sefydliadau Gwaith Ieuenctid Gwirfoddol.

Mae Comisiynydd Plant Cymru o'r farn y dylid cryfhau'r cyfeiriad a geir yn y fframwaith drafft at Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn er mwyn cynnwys yr hawliau penodol sy'n berthnasol i waith ieuenctid. Gofynnodd nifer o'r ymatebwyr a fyddai modd cyhoeddi Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant.

## Gwaith ymgysylltu ychwanegol gyda phobl ifanc

Isod, nodir y themâu allweddol a ddeilliodd o'r ddau ddull a ddefnyddiwyd i ymgysylltu â phobl ifanc.

### Diffinio gwaith ieuenctid

Roedd rhai o'r bobl ifanc yn pryderu bod y diffiniad arfaethedig o waith ieuenctid fel 'gwasanaeth addysgol' braidd yn gyfyngedig. Yn ôl un person ifanc, "Rydw i'n teimlo bod gwaith ieuenctid yn ehangach nag addysg yn unig. Mae'n defnyddio dull cymdeithasol, dull meithrin hyder a sgiliau ymarferol, sy'n canolbwyntio ar lesiant ac sy'n creu man diogel i bobl ifanc".

Yn ôl rhai ohonynt, gallai'r diffiniad presennol, ynghyd â'r modd y disgrifir gwaith ieuenctid fel gwasanaeth addysgol, ddieithrio'r rhai sydd wedi cael profiadau negyddol o addysg.

Un pryder mawr oedd y ffaith na sonnir am ddatblygu a chydberthnasau yn y diffiniad cyfredol o waith ieuenctid. Ym marn nifer o'r bobl ifanc, mae'r cyfle i feithrin cydberthnasau yn un o swyddogaethau allweddol gwaith ieuenctid, er mwyn iddynt allu teimlo bod rhywun wrth law i'w cynorthwyo a'u cefnogi.

Hefyd, roedd rhai o'r bobl ifanc o'r farn y gellir rhoi mwy o sylw i agwedd 'rymusol' gwaith ieuenctid yn y diffiniad. Yn ôl un cyfranogwr, "caiff ymyriadau eu cynnal gan weithwyr cymdeithasol a therapyddion, ond rôl gweithwyr ieuenctid yw grymuso a helpu pobl ifanc".

Ymhellach, roedd rhai o'r farn bod y diffiniad yn anwybyddu'r rôl eirioli bwysig a gyflawnir gan weithwyr ieuenctid yn aml.

Croesawyd y ffaith bod ymgysylltu gwirfoddol wedi'i gynnwys yn y diffiniad arfaethedig fel ffactor allweddol sy'n gwahaniaethu rhwng gwaith ieuenctid a gwasanaethau eraill. Nododd rhai o'r ymatebwyr fod yr hawl i ddewis cymryd rhan mewn gwaith ieuenctid ai peidio yn elfen hollbwysig, ac y byddai cynnwys y ffaith bod yr agwedd wirfoddol hon ar waith ieuenctid heb gosb yn gwahaniaethu rhwng

gwaith ieuenctid a gwasanaethau roeddynt wedi'u gweld mewn rhai lleoliadau gofal iechyd ac addysgol eraill.

Roedd rhai o'r bobl ifanc yn amheus ynglŷn â chyfeirio at gymhwyster yn y diffiniad a gofynnwyd am eglurder ynghylch a fyddai gwirfoddolwyr hefyd angen cymwysterau ffurfiol. Ystyriwyd y gallai hyn achosi problemau, oherwydd efallai y byddai'n atal rhai pobl sy'n dymuno gwirfoddoli.

Gofynnodd nifer o'r bobl ifanc a fyddai modd i'r diffiniad fod yn hygyrch i bobl ifanc trwy ddefnyddio iaith glir a diamwys.

## Cynlluniau Strategol Gwaith Ieuenctid

Roedd nifer o'r bobl ifanc o'r farn bod y cynnig ar gyfer cynlluniau strategol gwaith ieuenctid yn ffordd ddefnyddiol o osod nodau. Roedd rhai o'r farn y byddai cynlluniau strategol yn helpu i sicrhau bod darpariaeth ar gael i bob oedran, a chyfeiriodd y bobl ifanc at eu hanhawster presennol i gael gafael ar weithgareddau addas wrth iddynt fynd yn hŷn.

Roedd nifer o'r bobl ifanc yn awyddus i sicrhau y byddai safbwyntiau pobl ifanc, yn cynnwys rhai sydd wedi ymddieithrio, yn cael eu hystyried wrth ddatblygu cynlluniau strategol. Mynegwyd peth pryder ynglŷn â gallu awdurdodau lleol i wneud hyn yn effeithiol, o gofio bod eu cyllidebau o dan straen.

Gofynnodd un ymatebydd a fyddai modd i fforwm pobl ifanc lleol gymeradwyo fersiwn derfynol y cynllun strategol.

Roedd nifer o'r bobl ifanc o'r farn y byddai cynlluniau 5 mlynedd yn fuddiol gan y byddai trefniant o'r fath yn rhoi cyfle i awdurdodau lleol roi ystyriaeth lwyr i anghenion ac angenrheidiau pobl ifanc yn eu hardal a mynd i'r afael ag ambell rwystr sy'n atal pobl ifanc rhag cael gafael ar wasanaethau gwaith ieuenctid.

Ym marn rhai o'r ymatebwyr, roedd y cynnig i gydweddu amcanion y cynllun strategol â'r saith nod llesiant (a gynhwysir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol) yn fuddiol. Ym marn un ymatebydd, mae hi'n arbennig o bwysig i waith ieuenctid gyfrannu at Gymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang, er mwyn annog pobl ifanc i edrych y tu hwnt i'w cymuned leol.

Gofynnodd un fforwm ieuenctid am sicrwydd na fyddai gwaith ieuenctid yn cael ei ddefnyddio yn lle gwasanaethau iechyd meddwl a llesiant meddyliol eraill.

## Strwythurau cyfranogi ieuenctid

Pwysleisiodd nifer o'r bobl ifanc pa mor bwysig yw cyfathrebu a rhannu gwybodaeth er mwyn sicrhau cyfranogiad effeithiol, yn cynnwys allgymorth rhagweithiol lle defnyddir y cyfryngau cymdeithasol a thechnoleg ddigidol. Hefyd, soniodd nifer o'r bobl ifanc am ysgolion fel ffordd o gyrraedd ystod ehangach o bobl ifanc. Ymhellach, awgrymodd rhai o'r bobl ifanc y byddai'n fuddiol cael un wefan ganolog a fyddai'n rhestru holl wasanaethau ieuenctid yr ardal; gallai gwefan o'r fath gynnwys dolenni

ar gyfer arolygon, holiaduron ar-lein a gwybodaeth am y modd y gallai pobl ifanc a'u cyfoedion gymryd rhan.

Nododd nifer o'r ymatebwyr pa mor bwysig yw sicrhau bod pobl ifanc yn cael adborth penodol ac amserol ar ôl cynnal sesiwn ymgynghori neu gydlunio, er mwyn iddynt allu gweld bod eu lleisiau'n gwneud gwahaniaeth. Roedd y model adrodd 'fe ddywedoch chi, fe wnaethom ni' yn thema gyffredin, gan ddangos pa mor bwysig yw cau'r ddolen adborth.

Mynegodd nifer o'r bobl ifanc ddymuniad taer i werthuso cynlluniau strategol, ynghyd ag ansawdd gwasanaethau yn fwy cyffredinol. Awgrymwyd y gellid cynnal adolygiad gan gymheiriaid ar wasanaethau awdurdodau lleol – gellid gofyn i bobl ifanc o ardal wahanol ryngweithio â phobl ifanc leol i gasglu eu safbwyntiau a'u hadrodd yn ôl.

Thema fynych oedd yr angen i gynnwys pobl ifanc yn barhaus, gan ymestyn y cyfranogi y tu hwnt i ymgyngoriadau unigol, a chan gynnig cyfleoedd gwirioneddol i bobl ifanc wneud penderfyniadau ynghyd â chyfleoedd strwythuredig i bobl ifanc gyfrannu. Soniodd rhai pobl ifanc am eu dymuniad i gyfrannu at osod cyllidebau a llunio rhaglenni, yn hytrach na chymryd rhan mewn ymgyngoriadau ar ôl i'r penderfyniadau gael eu gwneud.

Roedd nifer o'r bobl ifanc yn croesawu'r gofyniad statudol mewn perthynas â chyfranogiad pobl ifanc, ond roeddynt o'r farn bod angen canllawiau cenedlaethol cliriach er mwyn sicrhau y byddai hyn oll yn cael ei gyflawni'n effeithiol ac yn gynhwysol ym mhob awdurdod lleol. Hefyd, roedd rhai ohonynt yn pryderu bod rhai cynghorau ieuenctid yn cael eu rheoli'n llym gan staff awdurdodau lleol, a'u bod yn cael eu tywys oddi wrth argymhellion neu drafodaethau a allai effeithio'n negyddol ar yr awdurdod o dan sylw. Gofynnwyd a fyddai modd cael trefniadau craffu annibynnol ar gyfer fforymau o'r fath.

## Y camau nesaf

Dymuna Llywodraeth Cymru ddiolch i bawb a neilltuodd amser i ymateb i'r ymgynghoriad hwn. Fel y dengys y crynodeb hwn, cafwyd llawer o adborth yn sgil yr ymarfer ymgynghori ar y fframwaith statudol drafft. Mae'r adborth o dan sylw yn amrywio o syniadau ynglŷn â'r modd y gellir cryfhau a gwella cynnwys y canllawiau, i awgrymiadau ynglŷn â chamau eraill y gellir eu cymryd er mwyn cyfrannu at gryfhau'r sail ddeddfwriaethol ar gyfer gwaith ieuenctid.

Bydd yr adborth a gafwyd mewn ymateb i'r cwestiynau ymgynghori yn cael ei ystyried wrth lunio'r fframwaith terfynol, a bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio'n agos gyda chynrychiolwyr ledled y sector, ynghyd â rhanddeiliaid allweddol eraill, i fireinio ein cynigion.

# Atodiad A

## Rhestr o’r ymatebwyr

Addysg Oedolion Cymru
Y Gwir Anrhydeddus Alun Michael
Beverley Martin, Girlguiding Cymru
Clybiau Bechgyn a Merched Cymru
Fforwm Ieuenctid Bechgyn a Merched Cymru
Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr (ar ran y gwasanaethau ehangach, yn cynnwys y trydydd sector)
Gwasanaeth Ieuenctid Caerdydd
Carlie Torlop, YMCA Abertawe
Cyngor Sir Ceredigion
Plant yng Nghymru
Comisiynydd Plant Cymru
Conway Hawkins, Clybiau Ieuenctid y Wig a Thregolwyn
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Cynghorwyr o Gyngor Tref Caernarfon
Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol (CWVYS)
Dave Brunton, Canolfan Galw Heibio Pobl Ifanc Senghennydd
David Williams, Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
Safonau Addysg Hyfforddiant (ETS) Cymru, hefyd ar ran y Grŵp Cyfranogiad Gweithredu: Datblygu’r Gweithlu
Cyngor y Gweithlu Addysg
Estyn
Fforwm Ieuenctid Eryri (Urdd Gobaith Cymru)
Fforwm Ieuenctid Fflint a Wrecsam (Urdd Gobaith Cymru)
Gareth Parry
Gareth Prosser, Heddlu De Cymru
GISDA
Dr Howard Williamson, Prifysgol De Cymru
John Killick
Josh Klein, Cyngor Sir Fynwy
Josie Downing, Gwasanaeth Ieuenctid Caerdydd
Keith Towler
Kymberly Sultana
Leanne Williams, Gwasanaeth Ieuenctid Caerdydd
Lee Wright, Ymddiriedolaeth Pobl Ifanc Abergwaun ac Wdig
Leslie Critchlow-Hughes, EYST / Partneriaeth Parc Caia
Lisa Knowles, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
Llamau
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol Cymru
NYAS Cymru
Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru
Gwasanaeth Ieuenctid Sir Benfro
Peter Williams, Cyngor Bro Morgannwg
Platfform
Chwarae Cymru

Promo Cymru
Rachael Barry, Gwasanaeth Ieuenctid Caerdydd
Ymatebion gan bobl ifanc yn EYST
Richard Williams, YMCA Abertawe
Stephen Aldridge
Gwasanaeth Ieuenctid Abertawe
Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
Tracy Lowe, ScoutsCymru
Urdd Gobaith Cymru
Fforwm Ieuenctid y Fro
Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru
Comisiynydd y Gymraeg
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru,
Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru a Grŵp Prif Swyddogion Ieuenctid Cymru
YMCA Caerdydd
YMCA Cymru a Lloegr
Young Wales
Llysgennad Ieuenctid, Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed Powys
Youth Cymru
Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid
Bwrdd Gweithredu'r Strategaeth Gwaith Ieuenctid
Tîm Gwaith Ieuenctid, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant
Zoe Davies, Ymddiriedolaeth Pobl Ifanc Abergwaun ac Wdig